***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2015 No. 229

# Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach) (Cymru) 2015

## RHAN C

### Rhyddhad dros dro

**Amodau rhyddhad**

**11.** At ddibenion adran 43(4B)(b)(ii) o Ddeddf 1988, yr amodau i'w bodloni yw'r rhai a ragnodir yn erthygl 12, 13 neu 14.

**Amodau gwerth ardrethol**

**12.** Yr amodau gwerth ardrethol yw—

(a) nad yw gwerth ardrethol yr hereditament yn fwy na £12,000;

(b) nad yw'r hereditament yn hereditament a eithrir; ac

(c) bod yr hereditament yn cael ei feddiannu'n gyfan gwbl.

**Amodau gofal plant**

**13.** Yr amodau gofal plant yw—

(a) bod yr hereditament yn cael ei ddefnyddio'n gyfan gwbl at ddibenion gwarchod plant neu ddarparu gofal dydd gan berson wedi ei gofrestru o dan Ran 2 o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010;

(b) nad yw'r hereditament yn hereditament a eithrir;

(c) bod yr hereditament yn cael ei feddiannu'n gyfan gwbl;

(d) nad yw gwerth ardrethol yr hereditament yn fwy na £9,000; ac

(e) bod y trethdalwr wedi rhoi hysbysiad i'r awdurdod bilio mewn cysylltiad â'r hereditament yn unol ag erthygl 16.

**Amodau mangre fanwerthu**

**14.** Yr amodau mangre fanwerthu yw—

(a) bod yr hereditament yn cael ei ddefnyddio'n gyfan gwbl neu'n bennaf at ddibenion mangre fanwerthu;

(b) bod gwerth ardrethol yr hereditament yn fwy na £10,499 ond nad yw'n fwy nag £11,000;

(c) bod y trethdalwr wedi rhoi hysbysiad i'r awdurdod bilio mewn cysylltiad â'r hereditament yn unol ag erthygl 16; a

(d) nad yw'r trethdalwr wedi rhoi hysbysiad yn unol ag erthygl 16 i'r awdurdod bilio, neu i unrhyw awdurdod bilio arall yng Nghymru, mewn cysylltiad ag unrhyw hereditament arall.

**Swm E**

**15.**—(1) Mae'r swm a bennir ym mharagraff (2), neu a gyfrifir yn unol â'r paragraff hwnnw, wedi ei ragnodi fel swm E at ddibenion is-adran 44(9) o Ddeddf 1988 pan fo'r amodau yn erthygl 12, 13 neu 14 wedi eu bodloni.

(2) Mewn perthynas â hereditament, pan fo'r amodau a ragnodir gan yr erthygl a bennir yng ngholofn (1) o'r tabl isod wedi eu bodloni a gwerth ardrethol yr hereditament o fewn yr ystod yn y golofn (2) gyfatebol, yna E yw'r swm a bennir neu a gyfrifir yn y golofn (3) gyfatebol.

**Tabl**

| *(1)*<br><br>*Erthygl* | *(2)*<br><br>*Gwerth Ardrethol*<br><br>*(£)* | *(3)*<br><br>*Swm E* |
|---|---|---|
| | 0 i 6,000 | 5,000,000 |
| 12 (Gwerth Ardrethol) | 6,001 i 12,000 | Cyfrifir yn unol â pharagraffau (3) a (4) o'r erthygl hon |
| 13 (Gofal Plant) | 0 i 6,000 | 5,000,000 |
| 13 (Gofal Plant) | 6,001 i 9,000 | Cyfrifir yn unol â pharagraffau (3) a (4) o'r erthygl hon |
| 14 (Mangre Fanwerthu) | 10,500 i 11,000 | 1.333333 |

(3) Yn ddarostyngedig i baragraff (4), cyfrifir swm E drwy rannu 6000 â'r ffigur a gyrhaeddir drwy dynnu 6000 o werth ardrethol yr hereditament a ddangosir yn y rhestr ardrethu annomestig leol ar gyfer y diwrnod hwnnw.

(4) Cyfrifir y symiau a gyfrifir o dan baragraff (3) i dri lle degol yn unig—

(a) drwy ychwanegu un milfed pan fyddai (ar wahân i'r is-baragraff hwn) fwy na phum deng milfed; a

(b) drwy anwybyddu'r deng milfedau pan fyddai (ar wahân i'r is-baragraff hwn) bum, neu lai na phum, deng milfed.